11.11.2021

Heledd Williams
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880364

Erthygl i'r Wasg **Press Release**

Cip ar gartref eclectig Lois Cernyw

Trawst wedi'i baentio'n neon, hen lestri capel yn addurno wal a golygfa wledig gwerth chweil yw rhai o nodweddion y cartref eclectig, llawn steil sy'n croesawu Nia Parry yn **Adre** yr wythnos hon ar nos Lun 22 Tachwedd.

Mae'r tŷ, sydd wedi'i leoli ym mhentref Llangernyw yn y bryniau rhwng Llanrwst ac Abergele yn gartref i'r gyflwynwraig Lois Cernyw, ei phartner, yr actor Robin Ceiriog a'u plant Iago ac hefyd Anni, sydd bellach wedi cyrraedd ers ffilmio'r rhaglen, ac o bryd i'w gilydd, merched Robin, Bella ac Enfys.

Ar ôl cyfnod o ddeng mlynedd yn byw yng Nghaerdydd yn gweithio fel cyflwynydd ar wasanaeth Planed Plant S4C, ac yna Stwnsh yn ddiweddarach, symudodd Lois yn ôl i'w chynefin yn y gogledd.

"A'th yr amser yng Nghaerdydd fel'na – mewn chwinciad chwannen, roedd 10 mlynedd wedi pasio, a wedyn ges i'r cyfle i wneud prawf radio efo Heart FM, achos roedden nhw ishio llais Cymraeg ar y sianel yng ngogledd a chanolbarth Cymru. Ar ôl ryw chydig fisoedd nathon nhw gynnig gwaith i mi'n cyflwyno'r sioe frecwast hefo bachgen o'r enw Ollie. A wedyn cael y cyfle i symud nol adre, a mae mor neis bod adre. Mae cael fy chwaer i lawr y ffordd yn amhrisiadwy.

Mae hi'n ferch ei milltir sgwâr, ac mae'r tŷ teuluol wedi chwarae rhan bwysig yn ei bywyd ers ei phlentyndod:

"Fuodd Mam yn rhan o'r broses o ddylunio'r tŷ; o'dd hi'n neud bach o bob dim. O'dd ganddi wastad lygad arbennig o dda am *design* a phethau felly. O'dd hi'n gwybod beth oedd hi ishio!"

Mae Lois yn dilyn ôl troed ei mam gyda'i diddordeb mewn cynllunio, ac wedi addasu'r gegin i fod yn le agored sy'n cyfuno'r ystafell fyw, sy'n le perffaith i'r teulu treulio'u hamser:

"Pan o'n i'n ifanc o'n i ishio bod yn gynllunydd. 'Na i ddim dechrau dweud faint o oriau dwi'n treulio'n edrych ar gynlluniau tŷ!"

"Dwi'n teimlo mai merch Llangernyw ydw i go iawn, a dwi'n teimlo bod y gymuned wedi cyfrannu lot i'm magwraeth i. Nathon ni golli mam tua 10 mlynedd yn ôl. Pan ti'n colli rhywun sy'n andros o agos i ti, mae'n rhoi popeth mewn persbectif. Ti'n teimlo tisho bod yn agos i'r teulu."

Caiff Nia hefyd gyfle i sgwrsio gyda Robin Ceiriog, partner Lois, sy'n gyfarwydd i lawer fel y cymeriad Mathew yn yr opera sebon Rownd a Rownd. Ac er mai un o'r Bala ydi o'n wreiddiol, mae'n hapus i alw Llangernyw yn adref erbyn hyn:

"Mae Mam yn dod o'r ardal, felly mae gen i lot o deulu o gwmpas. A deud y gwir, mae'r ddau le yn eitha' tebyg o ran pobl – cefn gwlad a chymuned glos."

Adre
Nos Lun 22 Tachwedd 8.00, S4C
Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill
Cynhyrchiad Boom ar gyfer S4C

11.11.2021

Heledd Williams
Cyswllt Contact
03305 880364

Erthygl i'r Wasg **Press Release**

A peek at Lois Cernyw's eclectic home

A neon painted beam, old chapel plates decorating a wall and a breath-taking rural view are some of the features of the eclectic, stylish home that welcomes Nia Parry in **Adre** this week (on Monday 22 November).

The house, situated in the village of Llangernyw in the hills between Llanrwst and Abergele is home to presenter Lois Cernyw, her partner, actor Robin Ceiriog and their children Iago and also Anni, who has arrived since filming the programme, and from time to time, Robin's daughters, Bella and Enfys.

After 10 years living in Cardiff and working as a presenter on S4C's Planed Plant service, and then Stwnsh, Lois moved back to her native North Wales.

"The time in Cardiff went just like that - in a fleeting moment, 10 years had passed, and then I had the chance to have an audition with Heart FM, because they wanted a Welsh voice on the channel in north and mid Wales. After a few months they offered me a job presenting the breakfast show with a boy called Ollie. Having the opportunity to move back home was superb; it's so nice to be home. Having my sister down the road is invaluable."

Lois's roots are set firmly in the area, and the family home has played an important part in her life since childhood:

"Mam was involved in the house design process; she did a little of everything. She always had a very good eye for design and things like that. She knew what she wanted!"

Lois follows in her mother's footsteps with her interest in design, and has revamped the kitchen into an open space that combines the living room – a perfect place for the family to spend their time:

"When I was young I wanted to be a designer. I won't say how many hours I spend studying house plans!"

"I'm a Llangernyw girl through and through, and I feel that the community has contributed so much to my upbringing. We lost Mam about 10 years ago. When you lose someone who's close to you, it puts everything into perspective. You want to be near your family."

Nia also has the opportunity to chat with Robin Ceiriog, Lois's partner, who is well known to many as the character Mathew in the soap opera Rownd a Rownd. And although originally from Bala, he is happy to call Llangernyw home now:

"Mum is from the area, so I have a lot of family around. In fact, both places are quite similar in terms of people - the countryside and a close knit community."

Adre
Monday 22 November 8.00, S4C
English and Welsh subtitles available
On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms
A Boom production for S4C